



Gwasanaeth Democrataidd
Democracy Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
DEMOCRATIC SERVICE COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

10.00 a.m. DYDD MAWRTH, 4 MEHEFIN 2013

10.00 a.m. TUESDAY, 4 JUNE 2013

Lleoliad / Location

SIAMBR DAFYDD ORWIG

SWYDDFEYDD Y CYNGOR

CAERNARFON

Pwynt Cyswllt / Contact Point

GLYNDA O'BRIEN

01341 424 301

: **GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk**

Dosbarthwyd: 24.05.13

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE**

AELODAETH / MEMBERSHIP (15)

Plaid Cymru (7)

Y Cynghorwyr / Councillors

Selwyn Griffiths	Charles Wyn Jones
Michael Sol Owen	Linda Ann Wyn Jones
Dilwyn Morgan	Gareth Thomas
Mandy Williams-Davies	

Annibynnol / Independent (4)

Y Cynghorwyr / Councillors

Lesley Day	Tom Ellis
Anne Lloyd-Jones	Jean Forsyth

Llais Gwynedd (3)

Endaf Cooke	Anwen Davies
Jason Humphreys	

Llafur / Labour (1)

Y Cynghorydd / Councillor Sion Wyn Jones

Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council
Y Cynghorwyr / Councillor Huw Edwards a / and Dewi Owen

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I gadarnhau penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod ar 2 Mai 2013 i ethol Y Cynghorydd Lesley Day yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2013/14.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2013/14.

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2013 fel rhai cywir.

(Copi'n amgaeedig – papur **gwyn**).

7. GWE DDARLLEDU A MYNYCHU CYFARFODYDD O BELL

I ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Gofal Cwsmer ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig – papur **melyn**)

8. ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN AELODAU ETHOLEDIG

I ystyried adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig – papur **gwyrdd**)

9. MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011 – HYFFORDDIANT AELODAU

I ystyried adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig – papur **lelog**)

10. SIARTER HYFFORDDIANT AELODAU

I ystyried adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor a'r Pennath Gwasanaethau Democrataidd ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig – papur **glas**)

11. BWLETIN AELODAU ETHOLEDIG

I ddiweddaru Aelodau ar yr uchod.

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, 19.03.13

Yn bresennol: Y Cyngorydd Lesley Day (Cadeirydd);
Y Cyngorydd Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr: Anwen Davies, Tom Ellis, Selwyn Griffiths, Jason Humphreys, Charles Wyn Jones, Sion Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas

Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Gofal Cwsmer)

Swyddogion: Geraint George, (Pennaeth Strategol a Gwella), Gwenan Parry (Pennaeth Gofal Cwsmer), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democratiaidd), Huw Ynyr (Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Busnes), Sion G. Williams (Rheolwr Cyfathrebu) a Gwyn Parry Williams, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Jean Forsyth, Linda W. Jones, Michael Sol Owen a Mandy Williams-Davies.

Diolchiadau

Diolchodd y cadeirydd i'r cyn-gadeirydd y Cyngorydd Dewi Owen am ei wasanaeth tros y misoedd diwethaf.

1. CADEIRYDD

PENDERFYNWYD cadarnhau penderfyniad y Cyngor ar 28 Chwefror 2013 i ethol y Cyngorydd Lesley Day yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am weddill 2012/13, i olynu'r Cyngorydd Dewi Owen.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, 2012 fel rhai cywir.

4. CEFNOGAETH I AELODAU

i) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth yn rhoddi diweddariad am y gefnogaeth sydd ar gael a'r datblygiadau a wireddwyd ac ar y gweill.

ii) Mynegwyd barn gan aelodau'r pwyllgor, a nodwyd -

a) Bod aelodau'r Cabinet wedi derbyn manylion am swydd-ddisgrifiadau'r pencampwyr ond nid yw aelodau'r pwyllgor hwn wedi eu derbyn.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth y byddai'n tynnu sylw'r Swyddog Monitro at y mater gan mai hi sy'n gyfrifol am ddatblygu gwybodaeth a.y. ar gyfer y pencampwyr.

b) Tynnwyd sylw gan aelod bod y Cabinet yn ystyried cael dau bencampwr arall a gofynnodd a fyddai'n bosibl i'r pwyllgor gael manylion amdanynt.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Strategol a Gwella, unwaith y ceir penderfyniad gan y Cabinet, fe gyflwynir manylion am y ddau bencampwr arall i'r pwyllgor hwn ac i holl aelodau'r Cyngor.

c) Mewn perthynas â'r Cynulliad Ardal, cyfeiriodd aelod at y posibilrwydd o sefydlu is-bwyllgorau trawsffiniol. Nododd iddo godi'r mater yn y Cyngor ar 28 Chwefror 2013, pryd y cafwyd addewid y rhoddir ystyriaeth iddo.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth bod gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd parthed datblygiad y Cynulliad Ardal.

ch) Cyfeiriodd aelod at y bwriad o gael dau Gynulliad Ardal yn Arfon a gofynnodd os y penderfynwyd ar ddaearyddiaeth y ddwy ardal.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer bod angen ymgynghoriad pellach ar hyn gyda'r aelodau, ond i gynrychiolwyr Felinheli a Rhiwlas eisoes awgrymu Bangor/Ogwen a Caernarfon/Dyffryn Nantlle fel dwy ardal.

Gwnaed cynnig gan aelod y dylai'r ddwy ardal gael eu hadnabod fel Caernarfon/Gwryfai a Bangor/Dyffryn Ogwen, Pasiwyd y cynnig. Hysbysodd yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer y byddai'n nodi'r cynnig hwn fel rhan o'r ymgynghoriad gydag aelodau Ardal Arfon.

d) Nododd aelod i Bwyllgor Ardal Meirionnydd a gynhaliwyd yr wythnos ddiwethaf gytuno yn unfrydol i'w enwi yn Fforwm Ardal Meirionnydd yn hytrach na Chynulliad Ardal ac y dylid cyfarfod o leiaf chwe gwaith y flwyddyn gan ddechrau ym mis Mai 2013. Gofynnodd i'r Aelod Cabinet Gofal Cwsmer nodi hyn fel rhan o'i drafodaethau.

dd) Cyfeiriodd aelod at yr angen i sefydlu grwpiau o fewn yr ardaloedd i ystyried pynciau penodol.

e) Mewn perthynas â gwybodaeth electroneg i aelodau, nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth y cynhaliwyd 13 sesiwn o hyfforddiant i aelodau ar yr i-pad ac erbyn hyn mae 69 o'r aelodau yn eu defnyddio. Derbyniodd y ddesg gymorth sawl ymholiad gan aelodau parthed yr i-pad. Anogodd yr aelodau i barhau i gysylltu â'r ddesg gymorth os y cyfyd unrhyw broblemau ynglyn â hwy.

f) 'Roedd aelod o'r farn y dylid stopio anfon rhaglenni cyfarfodydd a.y. i'r aelodau ar ffurf papur, yn wyneb y ffaith bod y mwyafrif o'r aelodau erbyn hyn yn defnyddio i-pad.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth y trefnir i wneud hyn gan ddarparu copiau papur o raglenni cyfarfodydd a.y. i weddill yr aelodau sydd heb ddarpariaeth electroneg.

ff) Nododd aelod y dylid adrodd yn ôl ar unrhyw broblemau, megis dyddiaduron, derbyn rhai dogfennau nad yw'n bosibl eu newid a.y.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth ei bod yn bwysig iddo gael gwybodaeth am unrhyw rwystredigaethau gyda'r ddarpariaeth.

g) Yn wyneb y ffaith bod y porth gwybodaeth wedi methu, gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl uwchraddio "exchange".

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Gofal Cwsmer y gellid cymryd camau i ail-ddiffinio'r bylchau yn y ddarpariaeth.

Hysbysodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth y bwriedir uwchraddio "exchange" yn ystod y flwyddyn nesaf.

ng) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed trafferthion i dderbyn e-byst gan yr Adran Cynllunio yn ymwneud â cheisiadau cynllunio, hysbysodd y Pennaeth Gofal Cwsmer y rhoddir sylw i hyn.

h) Nododd aelod bod darllen dogfennau ar yr i-pad am gyfnodau hir yn gallu bod yn llafurus i'r llygad a bod cael copiau papur yn llawer haws i'w darllen.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth y byddai'n bosibl tywyllu'r sgrin ychydig.

i) Tynnwyd sylw gan Gadeirydd y Cyngor ei fod yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd yn derbyn copi o bob rhaglen ac y dylid ailedrych ar hyn. Diolchodd i staff yr Adran Dechnoleg Gwybodaeth am yr holl gymorth a dderbynnir ganddynt.

l) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed e-byst yn diflannu o'r system, hysbysodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth y rhoddir sylw i'r mater.

ll) Mewn perthynas â bwletinau gwybodaeth gan Aelodau Cabinet, cyfeiriodd aelod bod rhai adrannau'n rhoddi gwybodaeth i aelodau lleol am faterion sy'n digwydd yn eu hardaloedd ond bod adrannau eraill yn gyndyn o roddi gwybodaeth.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Cyfathrebu y dechreuwyd ar waith ymchwil i ganfod lle mae'r bylchau. Anfonwyd neges i'r aelodau diwedd yr wythnos ddiwethaf a'r cam nesaf fydd anfon holiadur yn ystod yr wythnos hon i weld ac adnabod lle mae'r bylchau'n lleol ac wedyn cynhyrchir y rhifyn cyntaf a anfonir allan canol mis Ebrill.

m) Cyfeiriodd aelod nad yw Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn rhoddi manylion i aelodau lleol am y tenantiad pan osodir tai o fewn eu wardiau ac y dylid cael gwell dealltwriaeth rhyngddynt â'r aelodau.

Mewn ymateb, hysbysodd aelod sy'n cynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd iddi eisoes ofyn iddynt am y wybodaeth hon, ond oherwydd y Ddeddf Diogelu Data nid yw'n bosibl cael gwybodaeth am y tenant. Yr unig wybodaeth maent yn fodlon ei ddatgelu yw manylion am yr eiddo a osodir..

n) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed ymateb i ymholiadau neu gwynion gan aelod lleol, hysbysodd y Pennaeth Strategol a Gwella y dylent ddefnyddio'r cyfundrefnau priodol yn y lle cyntaf gan bod hynny'n fwy tebygol o arwain at ddatrasiad i'r ymholiad.

o) 'Roedd aelod o'r farn y dylai'r pencampwyr yn ogystal ag aelod unigol gael yr hawl i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Cabinet.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau uchod.

5. GWE DDARLLEDU A MYNYCHU CYFARFODYDD O BELL

a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gofal Cwsmer bod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ceisio hyrwyddo democratiaeth lleol a bod yn fwy cynhwysol wrth sicrhau mewnbwn ac ymrwymiad gan y cyhoedd. Mae Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn nodi bod awdurdodau lleol yn y sefyllfa orau i weithio gyda chynghorau cymuned/tref er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at wybodaeth am waith a busnes y cynghorau hynny, a sut i gysylltu â hwy. Yn ychwanegol, mae Adran 4 o'r Mesur yn nodi'r gofyn i awdurdodau sicrhau bod aelodau etholedig yn gallu "mynychu cyfarfodydd o bell", h.y. nad oes rhaid i bob person (aelod) fod yn bresennol yn yr un ganolfan ar gyfer cynnal cyfarfod. Ni chyhoeddwyd canllawiau penodol gan Lywodraeth Cymru hyd yma ar sut yn union i gyflawni anghenion y ddeddf

Nododd y derbyniwyd gwybodaeth dechrau'r flwyddyn gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau am ddyrannu grantiau ar gyfer ymateb i'r elfennau uchod. Ar 21 Chwefror 2013, derbyniwyd copi o gytundeb grant gyda chyfarwyddyd i'w arwyddo a'i ddychwelyd erbyn 7 Mawrth 2013 a oedd yn datgan y bydd hyd at £72,000 ar gael i'r Cyngor sef –

- £42,000 ar gyfer darlledu cyfarfodydd y Cyngor a chaniatau i aelodau ymuno â chyfarfodydd "o bell"
- £30,000 ar gyfer dyrannu grant o hyd at £500 yr un i gynghorau cymuned Gwynedd i sefydlu eu gwefannau eu hunain.

Cyfeiriodd at y ffaith bod y grant ar gyfer gwariant am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013 ac yn gorfod cael ei hawlio'n llawn erbyn 31 Mawrth 2013. Fodd bynnag, mae darpariaeth ar gyfer trosglwyddo'r gwariant i 2013/14. Gan bod yr amserlen ar gyfer ymateb i gyflwyno cais am grant wedi bod yn hynod o dynn, cytunwyd y dylid derbyn y grant am y tro, gyda gwaith pellach i'w gynnal yn fewnol parthed sut y gellir darlledu cyfarfodydd y Cyngor tros y we.

Nododd bod y Cyngor mewn sefyllfa hynod fanteisiol gan bod yr is-adeiledd ar gyfer darlledu cyfarfodydd fel hyn wedi ei fewnosod yn Siambr Dafydd Orwig yn ystod yr wythnosau diwethaf ac yn ran o brosiect Siambr Hywel Dda. Byddai hyn yn caniatáu i aelodau ymuno â chyfarfodydd yn y siambrau hyn o'r ystafelloedd fideo gynadleddau yn Nolgellau a Phwllheli.

Er mwyn gallu darlledu'n effeithiol a dwyieithog, fe ymddengys ar hyn o bryd y bydd angen prynu gwasanaeth golygu/darlledu. Mae un cwmni arbennig yn darparu'r gwasanaeth hwn yng Nghymru a derbyniwyd dyfynbris o £32,000 ganddynt am gytundeb i ddarlledu cyfarfodydd am ddwy flynedd. Parheir i ymchwilio i'r dull gorau a mwyaf cost effeithiol o ddarlledu, gan weithio ar y cyd â chynghorau eraill a cheisio arweiniad gan Lywodraeth Cymru o ran yr hyn sy'n ddisgwyliedig.

Mewn perthynas â'r dyraniad grant o hyd at £500 ar gyfer pob cyngor cymuned/tref i ddarparu gwefannau, disgwylir i'r Cyngor hwn weinyddu'r grant ar eu cyfer. Trafodir yr elfen hon gyda'r Adran Economi Adfywio gyda'r nôd o ymgymryd â'r gwaith hwn.

b) Mynegwyd barn gan aelodau'r pwyllgor, a nodwyd -

i) Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl cysylltu cyn gynted â phosibl â'r cynghorau cymuned/tref i dynnu eu sylw at y grant.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Gofal Cwsmer mai prin yw'r manylion ar hyn o bryd ond o ran cynllunio'n ariannol ar gyfer y flwyddyn nesaf, byddai'n fuddiol iddynt gael y wybodaeth.

ii) Tynnwyd sylw gan aelod y cynhelir y Pwyllgor Cynllunio yn y dair ardal yn ei dro, ac ar adegau, bydd yr aelodau lleol, nad ydynt efallai yn aelodau o'r pwyllgor, yn gorfod teithio cryn bellter i'r cyfarfodydd hyn. Cyfeiriodd at y posibilrwydd gyda'r system newydd hon i aelodau lleol, dyweder o Ardal Arfon, os y cynhelir y pwyllgor unai ym Mhwllheli neu Dolgellau, i fod yn ran o'r drafodaeth yn Siambr Hywel Dda.

iii) Gofynnodd aelod am sicrwydd y byddai'r capasiti yn cael ei adeiladu o fewn y Cyngor i ddarlledu'r cyfarfodydd ar ôl i gytundeb y cwmni ddod i ben ar derfyn y ddwy flynedd.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Gofal Cwsmer bod yr egwyddor yn bwysig ac y ceisir lansio rhywbeth sy'n gynaliadwy a rhoddir ystyriaeth i'r awgrym.

iv) Nododd yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer y cyfeiriwyd at y posibilrwydd o gael capasiti o fewn y Cyngor i barhau gyda darlledu cyfarfodydd ac i gynorthwyo cynghorau cymuned/tref, ond gan ei bod yn gyfnod heriol i'r Cyngor, rhaid bod yn wiliadwrs.

PENDERFYNWYD

a) Caniatáu i'r swyddogion perthnasol wneud ymchwil pellach ar y gwaith sydd ynghlwm â gofynion y Mesur pan ddaw'r canllawiau llawn, a'r posibiliadau o ran defnyddio'r arian grant.

b) Bod y swyddogion perthnasol i drafod y mater gyda Chadeirydd y Pwyllgor a chyflwyno adroddiad pellach i'r pwyllgor nesaf ar 4 Mehefin 2013.

6. ADRODDIADAU AELODAU

a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella ar y gofynion, amserlen a risgiau er mwyn penderfynu ar gyfeiriad ar gyfer gweddill yr aelodau.

Nododd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor wneud trefniadau i alluogi aelodau i gyhoeddi adroddiad blynyddol ond nid oes gorfodaeth ar unrhyw aelod i baratoi adroddiad o'r fath. Mae'n ddewis i unrhyw aelod gyhoeddi adroddiad blynyddol ac argymhellodd bod yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer a Chadeirydd y Pwyllgor hwn yn llunio adroddiad blynyddol ar gyfer 2012/13 er mwyn gallu arbrofi a dysgu o'r gwahanol enghreifftiau. Cyfeiriodd at yr eitemau y dylid eu cynnwys yn yr adroddiad a hefyd y risgiau. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiad yn flynyddol ym mis Mehefin.

b) Mynegwyd barn gan aelodau'r pwyllgor, a nodwyd -

i) Ei bod yn bwysig i bob aelod gadw cofnod o'r cyfarfodydd a.y. y bu iddynt fynychu yn ystod y flwyddyn.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth bod ceisio cadw cofnod yn bwysig iawn. Nododd bod llawer o wybodaeth ar gael o fewn y Cyngor e.e. hyfforddiant aelodau, cyfarfodydd a fynychwyd a.y. ond nid oes manylion o'r cyfarfodydd a fynychwyd tu allan i'r Cyngor.

ii) Dylid ystyried yr adnoddau sydd ar gael o fewn y Cyngor i ymgymryd â'r gwaith hwn.

iii) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed cynnwys adroddiadau llywodraethwyr ysgolion o fewn yr adroddiad blynyddol, hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth y byddai hynny bosibl, ond mai mater i'r aelodau eu hunain yw penderfynu os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

PENDERFYNWYD bod yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd i lunio adroddiad blynyddol ar gyfer 2012/13 er gosod cyfeiriad a rhoddi arweiniad, gyda gweddill aelodau'r Cyngor i lunio adroddiadau o 2013/14 ymlaen, yn unol â'i dymuniad.

7. HYFFORDDIANT AELODAU

a) Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd yr Is-Grŵp Hyfforddiant, y Cynghorydd Dilwyn Morgan.

Atgoffodd yr aelodau o'r penderfyniad i sefydlu is-grŵp i ystyried yn benodol hyfforddiant i aelodau. Penderfynodd yr is-grŵp i sefydlu grŵp ffocws a oedd yn cynnwys aelodau etholedig er ceisio annog aelodau i gymryd perchenogaeth o'r rhaglen hyfforddiant. Nododd y cynhaliwyd cyfarfod o'r grŵp ffocws ym Mhorthmadog ar 18 Chwefror 2013 a thynnodd sylw at y prif faterion a drafodwyd

sef Diffinio Pwrpas Rhaglen Dysgu a Datblygu; Beth mae Rhaglen Ddatblygol/Hyfforddiant yn ei olygu i chwi a Pha elfennau yr hoffech i raglen ddatblygol/hyfforddiant ei gynnwys. 'Roedd y grŵp ffocws o'r farn ei bod yn bwysig bod aelodau unigol yn cymryd cyfrifoldeb personol am y rhaglen ddatblygu. Bydd y tîm Dysgu a Datblygu yn ymgorffori holl ddyheadau'r grŵp ffocws i raglen hyfforddiant y dyfodol.

b) Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth at ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau y darperir cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'r aelodau. Yn ogystal, rhaid sicrhau y rhoddir cyfle i bob aelod gael adolygiad blynyddol o'i anghenion hyfforddi a datblygu. Tynnodd sylw at y posibilrwydd o ennill Siarter Cefnogi a Datblygu ar gyfer y Cyngor. Nododd i'r Cyngor ennill y Siarter yn y gorffennol.

PENDERFYNWYD

a) Bod y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu yn mynd rhagddo gyda chynllunio ac addasu'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer aelodau, yn seiliedig ar waith yr Is-grŵp Hyfforddiant

b) Caniatai i'r swyddogion perthnasol wneud ymchwil pellach ar y gwaith sydd ynghlwm â'r Mesur a'r Siarter, a thrafod y mater gyda Cadeirydd y Pwyllgor a chyflwyno adroddiad pellach i'r cyfarfod nesaf ar 4 Mehefin 2013.

8. SYSTEM BLEIDLEISIO

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth at y gwahanol opsiynau sydd ar gael o fewn y system bleidleisio newydd yn Siambr Dafydd Orwig.

Nododd yr aelodau y sylwadau canlynol –

- Y dylai'r bleidlais ymddangos ar y sgrin ar ddiwedd pleidlais arferol a ddim tra mae'r bleidlais yn digwydd.
- Bod y ffordd hon o bleidleisio yn gymhleth i bwyllgor gan bod y broses o agor a chau'r bleidlais a.y. yn cymryd mwy o amser na chodi dwylo i bleidleisio.
- Y dylai enw pob aelod ymddangos ar y sgrin ar ddiwedd pob pleidiais yn dangos y ffordd y bu iddynt bleidleisio.
- Nad yw'r system hon yn addas i bwyllgor bychan.

Addawodd y swyddogion roddi sylw i'r sylwadau hyn.

Dechreuodd y cyfarfod am 10,00am a daeth i ben am 12.00

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	4ydd o Fehefin 2013
PWNC	Gwe Ddarlledu a Mynych Cyfarfodydd o Bell
PWRPAS	Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gofynion gwe ddarlledu, mynychu cyfarfodydd o bell a'r datblygiadau ynghylch grant i Gyngorau Cymuned.
Awduron	Gwenan Parry Pennaeth Gofal Cwmser
	Geraint George Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

CYFLWYNIAD

1. Adroddwyd i Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y 19eg o Fawrth fod Mesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2011 yn ceisio hyrwyddo democratiaeth lleol a chynhwysol, a bod y Gweinidog ar y pryd, Carl Sargeant, wedi nodi ei ddymuniad i geisio symud ymlaen ar hyn trwy:

- We-ddarlledu
- Gallu gan aelodau i 'fynychu cyfarfodydd o bell'
- Cyd-weithio gyda chynghorau cymuned a thref i sicrhau mynediad at y wybodaeth allweddol

2. Adroddwyd hefyd fod y Cyngor wedi arwyddo cytundeb i dderbyn grant o £72,000 ar gael i Gyngor Gwynedd , gyda'r rhaniad y gwariant fel a ganlyn:

- £40,000 ar gyfer darlledu cyfarfodydd y Cyngor a chaniatau i aelodau ymuno â chyfarfodydd o "bell"
- £32,000 ar gyfer dyrannu grant o hyd at £500 yr un i gynghorau cymuned y sir i sefydlu eu gwefannau eu hunain.

3. Drwy dderbyn y grant, bydd Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i:

Wneud beth	Erbyn pryd	Tystiolaeth
I ddarlledu yr oll / neu rai o gyfarfodydd y Cyngor	31 Mawrth 2014	Presenoldeb darllediadau ar wefan y Cyngor
Darparu cyllid i gynghorau cymuned i'w cefnogi i ddatblygu eu gwefannau	31 Mawrth 2014	Nifer o gynghorau cymuned sydd a gwefan
Trefnu i aelodau ymuno â chyfarfodydd "o bell"	31 Mawrth 2014	Adroddiad ysgrifenedig yn nodi sawl cyfarfod o'r fath gynhaliwyd a llwyddiant yr ymarferiad

DIWEDDARIAD


4. O ran gwe-ddarlledu, mae'r datblygiadau wedi eu cwblhau yn Siambr Dafydd Orwig eisoes, a'r gwaith yn parhau i fynd rhagddo yn Siambr Hywel Dda. Mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn ac sydd ar y gweill yn golygu y byddwn mewn sefyllfa lle rydym yn medru cynhyrchu'r deunydd i'w ddarlledu ond bod angen trefnu a chefnogaeth wedyn ar gyfer darlledu'r deunydd ar y we.
5. O ran y gost, adroddwyd yn gychwynnol ar y gwaith ymchwil agoriadol i gostau gwe ddarlledu yn ddwyieithog i'r cyfarfod diwethaf, ac mae'r gwaith ymchwil pellach yn mynd yn ei flaen, ar y cyd ag awdurdodau eraill Gogledd Cymru. Bydd opsiynnau yn eu lle erbyn 15 Gorffennaf sef prynu pecyn meddalwedd i ddarlledu ar batrwm rhai awdurdodau eraill (e.e. Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) ond mae oblygiadau referniw i hyn neu, os ydyw yn bosibl datblygu model llawer mwy elfennol na fyddai yn costio cymaint i'w redeg yn flynyddol.
6. Un ystyriaeth y dylai'r pwyllgor fod yn ymwybodol ohonno yw sut y byddwn yn dymuno ymdrin â gofynion cyfieithu. Yn amlwg, ar hyn o bryd, mae cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd lle mae rhywun di-Gymraeg yn bresennol ond, os nad oes person di-Gymraeg yn bresennol, nid oes cyfieithu ar y pryd. Felly, os nad oes rhywun di-Gymraeg yn bresennol yn y cyfarfod ei hun ni fydd cyfieithiad yn cael ei ddarparu a felly ni fydd ffrwd sain i'r di-Gymraeg ar gael i unrhyw un a fyddai'n gwrando neu wyllo ar-lein. Awgrymir na fyddai'n ddefnydd da o adnoddau i fod yn darparu cyfieithiad ym mhob cyfarfod "rhag ofn" bod rhywun di-Gymraeg yn gwrando. Unwaith y bydd y drefn yn weithredol, awgrymir ein bod yn adolygu'r defnydd o'r ffrwd di-Gymraeg, i asesu'r galw cyn ystyried a ddylid gwneud unrhyw ddarpariaeth o gwbl ar gyfer hyn.
7. O ran caniatáu i aelodau ymuno â chyfarfodydd o bell, rydym yn dal i ddisgwyl am y canllawiau ar gyfer hyn ond, yn absenoldeb y canllawiau hynny, awgrymir bod y Pwyllgor yn ffurfio barn gychwynnol ar y mater:-
 - a) Cynnig bod y ddarpariaeth ar gael yn yr ystafelloedd fideo cynhadledd yn eiddo'r Cyngor yn Nolgellau a Pwllheli yn unig (er cael sicrwydd am dibynadwyedd y ddarpariaeth)
 - b) Peidio â chynnig y ddarpariaeth ar gyfer cyfarfodydd lle gwneir penderfyniadau gweithredol (Cabinet a Chyngor) ar y cychwyn er osgoi unrhyw gwestiynau cyfansoddiadol pe byddai'r offer yn peidio â gweithio ac aelod felly yn methu ymarfer ei hawl pleidleisio (Gobeithir y bydd y canllawiau o'u derbyn yn datrys y mater hwn)
8. O ran datblygu gwefannau Cyngorau Cymuned, mae gwaith wrthi'n mynd rhagddo ar yr elfen yma er mwyn ceisio hwyluso'r gwaith i'r Cyngorau

Cymuned a sicrhau eu bod yn cael y gwerth gorau am arian. Mae Unllais wedi cyd-weld gyda'r egwyddor o gynnig i'r Cynghorau Cymuned y gallant a) ymgeisio am rhywfaint o arian grant i ddatblygu safle gwe eu hunain neu b) datblygu gwefannau ar y cyd am bris mwy rhesymol. Mae'r drefn ymgeisio ac amserlen fras wedi ei nodi yn Atodiad A.

ARGYMHELLION

9. Argymhellir bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn:-

- a) Cymeradwyo symud ymlaen gyda darpariaeth gwe-ddarlledu o Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda ac, yn amodol ar faint y costau, i wneud darpariaeth ar gyfer unrhyw ofynion sefydlu a chynnal y tu hwnt i'r arian grant allan o'r gyllideb Costau Democratiaeth
- b) O ran cyfieithu ar y pryd ar gyfer gwe-ddarlledu, derbyn yr awgrym o beidio â gwneud darpariaeth y tu hwnt i drefniadau cyfieithu ar y pryd presennol y Cyngor yn yr ystafelloedd cyfarfod eu hunain
- c) Cymeradwyo symud ymlaen gyda darpariaeth ymuno â chyfarfodydd o bell yn amodol ar y cymalau 7a) a 7b) uchod.
- ch) Parhau i gefnogi'r gwaith o hwyluso datblygu gwefannau i Gynghorau Cymuned.



CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	4ydd o Fai 2013
PWNC	Adroddiadau Aelodau
PWRPAS	Cyflwyno'r sefyllfa diweddaraf ynghylch datblygiadau gydag adroddiadau aelodau ar gyfer 2012/13.
Awduron	Cynghorydd Les Day, Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
	Geraint George Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

1. Adroddwyd eisoes i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar ofynion Mesur Llywodraeth Leol Cymru (2011) ar gyfer sicrhau fod y Cyngor yn gwneud trefniadau i aelodau allu llunio adroddiad blynyddol petaent yn dymuno.
2. Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno y sefyllfa diweddaraf o ran datblygiadau a gweithrediad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
3. Yn dilyn trafodaeth ar y mater yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn, bu i mi ohebu gyda'r holl aelodau ar yr 8fed o Ebrill yn
 - adrodd ar ein penderfyniad fel pwyllgor i ymgymeryd â pheilot o'r drefn am 12/13
 - Yn nodi fod rhyddid i unrhyw aelod gynhyrchu adroddiad blynyddol
 - yn gofyn i aelodau ddatgan os oeddent yn bwriadu llunio adroddiad
 - ac yn hysbysu aelodau y byddai canllawiau manylach i ddilyn.
 (Gweler copi yn **Atodiad A**).
4. Yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor llawn, lle diweddarwyd yr holl aelodau o'r datblygiadau yng nghyd-destun yr adroddiadau blynyddol (fel rhan o'r adroddiad diweddarau ar gefnogaeth i aelodau) dosbarthwyd canllawiau pellach i aelodau etholedig ar 9fed o Fai. Roedd y canllawiau manwl eisoes wedi eu trafod a'u cyd-weld gan Grwp Busnes y Cyngor ddiwedd Ebrill. Gweler copi yn **Atodiad B**.
5. Wrth i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, roedd 6 aelod etholedig wedi cysylltu i nodi eu bwriad i gyhoeddi adroddiad blynyddol. Cyflwynir adroddiad ar lafar yn ystod y Pwyllgor o'r niferoedd sydd wedi cyflwyno erbyn diwedd Mai yn unol â'r gofyn.
6. Gellir trafod 'gwersi a ddysgwyd' agoriadol yn ystod y cyfarfod hwn, ond argymhellir fod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen (i gynnwys gwersi a ddysgwyd o safbwynt yr aelodau a'r Cyngor) yng nghyd-destun adroddiadau blynyddol i ddigwyddyn fwy amserol yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 10fed o Fedi 2013.

Adran Strategol a Gwella
Strategic and Improvement Department
Cynghorydd / Councillor Lesley Day

Gofynnwch am/Ask for: **Vera Jones**

☎ (01286) 679267

✉ VeraJones@gwynedd.gov.uk

Ein Cyf / Our Ref:

Eich Cyf / Your Ref:

8fed Ebrill, 2013

At: Holl Aelodau Etholedig

Amwyl Gyd-Aelod

Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau Etholedig

Fel yr ydych yn ymwybodol, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi ei bod yn ofynnol i'r Cyngor wneud trefniadau i alluogi aelodau etholedig unigol i gyhoeddi adroddiad blynyddol. Fodd bynnag, nid oes gorfodaeth ar unrhyw aelod i baratoi adroddiad o'r fath.

Trafodwyd y mater yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 20/03/2013. Tra ei bod yn ddewis i unrhyw aelod gyhoeddi adroddiad blynyddol, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer a finnau, fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn unig yn llunio adroddiad blynyddol ar gyfer 2012/13. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi, yn unol â gofynion, ar wefan y Cyngor erbyn diwedd Mehefin 2013.


Bydd gweithredu fel a nodir uchod yn ein galluogi ni fel aelodau i arbrofi a dysgu o wahanol brofiadau ac enghreifftiau. Yn ogystal, bydd yn caniatáu staff y Cyngor i adnabod ac asesu y gefnogaeth briodol sydd angen ei roi mewn lle er mwyn ein cefnogi ni fel aelodau wrth baratoi y gwaith hwn. Rhydd gyfle i ni ddysgu gwersi o'r ymarferiad ar gyfer 2012/13 gan ein paratoi ar gyfer llunio cyfeiriad ac arweiniad cliriach i weddill yr aelodau sy'n dymuno cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyfer 2013/14.

Buaswn yn ddiolchgar iawn, os yn bwriadu cyhoeddi adroddiad ar gyfer 2012/13, eich bod yn cysylltu gydag Arwel Ellis Jones, Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol, neu Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd gynted ag y bo modd er mwyn sicrhau fod y gefnogaeth briodol mewn lle ar eich cyfer.

Hoffwn hefyd gymryd y cyfle hwn i annog aelodau sy'n dymuno cyhoeddi adroddiad blynyddol yn y dyfodol i ddechrau cadw cofnod o'r cyfarfodydd ac yn y blaen y maent yn eu mynychu trwy gydol y flwyddyn.

Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn eich diweddarau o'r gwersi a ddysgwyd maes o law.

Yn gywir,



Cynghorydd Les Day
Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk

CANLLAWIAU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIADAU BLYNYDDOL AR GYFER 2012/13.

Gofynion Mesur Llywodraeth Leol Cymru (2011)

4. Rhaid i awdurdodau lleol **wneud trefniadau**
 - *I bob person sy'n aelod o'r awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,*
 - *i bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, ac*
 - *i'r awdurdod gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.*
5. *Caiff y trefniadau gynnwys amodau o ran cynnwys adroddiad y mae'n rhaid iddynt eu bodloni gan y person sy'n ei lunio.*
6. *Rhaid i awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'w drefniadau.*
7. *Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.*

Cefndir

- Bwriad yr Adroddiad Blynyddol gan yr Aelodau Etholedig yw gwella cyfathrebu rhwng Aelodau Etholedig a'r cyhoedd, mewn geiriau eraill, cyflwyno gwybodaeth i unigolion o'r ward.
- Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol yn nodi y bydd yr adroddiadau yn gyfrwng i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y mae eu haelodau lleol yn ei wneud a'r rôl bwysig sydd ganddynt. (hynny yw, galluogi aelodau'r cyhoedd i ddod o hyd i wybodaeth am weithgarwch eu cynghorydd lleol)
- Mae hefyd wedi nodi y bydd yn rhydd i bob awdurdod lleol ddewis eu fformat eu hunain ar gyfer yr adroddiadau. (hynny yw, gall awdurdodau lleol roi eu cyfyngiadau eu hunain ar gynnwys adroddiadau).
- Dim ond gwybodaeth ffeithiol y dylai adroddiadau blynyddol ei chynnwys.
- Mae hynny'n awgrymu mai gwybodaeth am gyfarfodydd, digwyddiadau, cynadleddau ac ati a fynychwyd gan y cynghorydd y dylid ei chynnwys yn bennaf, ynghyd ag unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu.
- Er y gallai fod yn dderbyniol cynnwys gwybodaeth fod aelod "wedi gwneud sylwadau ar ran yr ymgyrch i achub yr ysbyty lleol yn y ffyrdd canlynol", ni fyddai'n dderbyniol dweud fod aelod "wedi llwyddo i achub yr ysbyty lleol yn sgil ei ymdrechion ar ran ei etholwyr."
- Yn yr un modd, dylid osgoi cynnwys gwybodaeth mewn adroddiadau yn ymwneud â gweithgareddau a gwblhaodd yr aelod y tu hwnt i'w rôl fel cynghorydd. Felly, er y byddai'n dderbyniol cynnwys gwybodaeth am araith a roddodd aelod mewn cynhadledd yr oedd yn ei mynychu yn rhinwedd ei rôl yn y cyngor, ni fyddai'n

dderbyniol cyfeirio at araith a roddodd mewn cynhadledd plaid wleidyddol, er enghraifft, ac yntau yno fel cynrychiolydd cangen leol ei blaid.

- Dylid gofalu hefyd nad yw'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei dehongli fel beirniadaeth o aelod arall. Er enghraifft, ni fyddai'n dderbyniol i aelod gymharu ei bresenoldeb neu ei weithgareddau â aelod arall neu aelodau eraill.
- Dylid gofalu nad yw'r adroddiad yn cynnwys rhywbeth nad yw'n ffeithiol / sydd â blas gwleidyddol arno

Cynnwys - eitemau safonol i'w cynnwys:

- **Rôl a chyfrifoldebau** – gan gynnwys manylion aelodaeth o bwyllgorau a chyrff allanol, cofnodion presenoldeb yn y rhain ac yn y cyngor llawn.
- **Gweithgarwch lleol** – manylion unrhyw gymorthfeydd a gynhaliwyd a sylwadau a wnaed ar ran etholwyr, a chanlyniadau'r rhain.
- **Prosiectau mawr** – manylion unrhyw fentrau neu brosiectau lleol, sirol neu ranbarthol y bu'r aelod yn rhan ohonynt.
- **Dysgu a datblygu** – manylion digwyddiadau hyfforddi a datblygu a fynychwyd neu a ddilynwyd, a chynadleddau a seminarau a fynychwyd

Amserlen a chyfyngiadau

1. Dylid crynhoi'r wybodaeth i uchafswm o ddwy dudalen er mwyn i'r cyhoedd fod yn gallu eu darllen yn hawdd (*disgwylir i hyn fod o fewn y canllawiau statudol*).
2. Rhaid cyflwyno'r adroddiad drafft i'r Uwch Reolwr Comisiynu Corfforaethol (Arwel Ellis-Jones) erbyn 31 Mai 2013. Bydd y Cyngor yn trefnu cyfieithu'r adroddiad os yw'r aelod yn dymuno ac yn cyflwyno o fewn yr amserlen.
3. Dylid cyfeirio ceisiadau am wybodaeth ffeithiol am nifer pwyllgorau a fynychwyd/ sesiynau hyfforddiant at y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (Vera Jones) gynted ag y bo modd
4. Dylid bod yn barod i drafod y cynnwys yr adroddiad gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (Geraint George) os yw o'r farn nad yw'n cyd-fynd gyda chanllawiau y Mesur, cyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi. Cyhoeddir adroddiadau sy'n cyd-fynd gyda'r canllawiau yn unig.
5. Cyhoeddir yr adroddiadau terfynol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd erbyn diwedd Mehefin 2013 ar safle we'r Cyngor yn electroneg yn unig (*rydym yn parhau i ddisgwyl cadarnhad am y dyddiad cyhoeddi yn y canllawiau statudol*).

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	4ydd o Fehefin 2013
PWNC	Hyfforddiant Aelodau - Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yng nghyd-destun hyfforddiant i aelodau
PWRPAS	Cyflwyno gofynion y mesur er mwyn penderfynu ar y ffordd ymlaen.
Awduron	Cynghorydd Les Day, Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
	Geraint George Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

1. Mae Canllawiau Statudol Llywodaeth Cymru (sy'n cyd-fynd gyda'r Mesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2011) am adolygu datblygiad personol yn nodi y prif egwyddorion a ganlyn:

- Rhaid sicrhau bod adolygiad blynyddol o anghenion hyfforddi a datblygu ar gael i bob aelod o'r awdurdod
- Rhaid i'r adolygiad gynnwys cyfle i gael cyfweiliad wedi'i drefnu o flaen llaw rhwng yr aelod a pherson priodol cymwys
- Gall awdurdodau lleol fanylu ar ganlyniad y cyfweiliad mewn cynllun sy'n pennu'r anghenion hyfforddi a datblygu, ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- Dylai'r cynllun datblygu personol hwn gael ei roi i'r aelod a'i lofnodi gan yr aelod a'r sawl sy'n adolygu. Dogfen breifat yw hon na ddisgwylir i'r awdurdod na'r aelod ei chyhoeddi, er bod yr aelod yn rhydd i gyhoeddi manylion yn ei adroddiad blynyddol am unrhyw gyfleoedd hyfforddi a datblygu y manteisiodd arnynt os yw'n dymuno.
- Dylai awdurdodau lleol fabwysiadu disgrifiadau rôl ar gyfer amrywiol swyddi, a gellid defnyddio'r disgrifiadau fel canllaw i'r sgiliau y bydd gofyn i'r aelod perthnasol feddu arnynt.
- Asesiad o anghenion hyfforddi a datblygu yw'r adolygiad, nid adolygiad o berfformiad nac asesiad o ba mor dda y mae aelod yn cyflawni ei ddyletswyddau.
- Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu pwy fyddai'n berson priodol cymwys i gynnal y cyfweiliadau.

(Gweler y canllawiau statudol llawn yn **Atodiad A**)

2. Mae'r Cyngor eisoes wedi ymglymu i fod yn gefnogol i'r egwyddor o fod yn datblygu aelodau etholedig yn barhaus, ac mae hyn yn gyson gyda gwaith yr is-grŵp hyfforddiant a gyfarfu ym mis Chwefror eleni.
3. Fel sail i'r datblygiadau uchod, mae'r Cyngor eisoes wedi datblygu cymwyseddau craidd ac ymddygiadau craidd ar gyfer aelodau etholedig, a gyflwynwyd fel rhan o'r pecyn anwytho a dderbyniwyd ar ddechrau'r Cyngor

hwn. Yn ogystal, mae rhai swydd ddisgrifiadau hefyd yn bodoli. Mae angen diweddarau'r uchod i sicrhau eu bod yn gyfredol.

4. Yn ogystal, mae bwriad i beilota trefn o ddatblygu Cynllun Datblygu Personol gyda'r Cabinet yn y lle cyntaf. Mae posibilrwydd y bydd y Cabinet yn edrych ar mwy nag un elfen, megis hyfforddiant a datblygu, ynghyd â pherfformiad. Fodd bynnag, mae'n debygol mai'r elfen 'hyfforddiant a datblygu' yn unig fydd yn berthnasol i weddill aelodau'r Cyngor. Rhagwelir y bydd y Cabinet yn peilota y methodoleg a'r drefn o gynnal y sesiynau yn ystod y cyfnod Medi – Tachwedd 2013.
5. Ar yr un pryd, mae'n ofynol i'r Cyngor ddechrau rhoi trefniadau mewn lle ar gyfer gweddill yr aelodau i'w galluogi i dderbyn adolygiad o'u angehenion hyfforddiant a datblygu petaent yn dymuno hynny. Yr ydym eisoes yn ymwybodol fod rhai aelodau yn dymuno derbyn hynny gynted ag y bo modd, fodd bynnag, mae eraill eisoes wedi dynodi na fyddant yn dymuno trefn o'r fath.
6. I'r perwyl hwnnw felly, argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifennu at bob aelod (namyn aelodau'r Cabinet) i esbonio'r cyfleon sy'n codi o'r mesur yng ngyd-destun datblygiad parhaus i aelodau, ofyn iddynt ddatgan unai
 - Eu bod yn rhag-weld ar hyn o bryd eu bod yn dymuno derbyn adolygiad i'r fath
 - Eu bod yn rhag-weld ar hyn o bryd na fyddant yn dymuno derbyn adolygiad o'r fath
 - Nad oes ganddynt farn ar hyn o bryd o'u bwriad.Byddai hynny wedyn yn ein galluogi i fod yn dechrau cynllunio yn realistig o ran sut i weithredu unrhyw drefn.
7. I gyd- fynd â hyn, argymhellir fod cyflwyniad byr yn esbonio cyd-destun y cyfleon sy'n deillio o'r Adolygiad Datblygiad Personol yn cael ei gyflwyno yn y fforymau ardal cyntaf, fydd yn gyfle i'r holl aelodau ddeall y cyd-destun yn well a gofyn unrhyw gwestiynnau.
8. Ymhellach, rhagwelir y bydd ambell aelod yn dymuno mynychu nifer o gyrsiau hyfforddiant. Bydd yn angenrheidiol i ni fod yn realistic o ran adnoddau sydd ar gael. Byddwch eisoes yn ymwybodol fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi datblygu canllawiau ac egwyddorion ynghylch blaenoriaethu adnoddau i ganiatau i aelodau fynychu seminarau allanol ayyb yn eu cyfarfod ar 11 Rhagfyr 2012. Gweler Atodiad B.
9. Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn addasu'r egwyddorion hynny i bwrpas sesiynau hyfforddiant allanol, ac yna yn eu mabwysiadu.

Argymhellion:

10. Ysgrifennu at bob aelod etholedig (namyn aelodau'r Cabinet) a chyflwyno'n gryno yn y fforymau ardal cyntaf gan esbonio gofynion Mesur Llywodraeth Leol yng nghyd-destun Cynlluniau Datblygu Personol, gan ofyn iddynt ddatgan diddordeb mewn derbyn adolygiad blynyddol neu beidio. Cyflwynio'n gryno yn y fforyma
11. Addasu'r egwyddorion a'r canllawiau a ddatblygwyd ar gyfer blaenoriaethu caniatu i aelodau fynychu seminarau allanol ayyb a'u gwneud yn berthnasol ar gyfer cyrsiau hyfforddiant hefyd a'u mabwysiadu fel rhan o'r uchod.

Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru am adolygu datblygiad Personol

Adolygiad Blynyddol

2.12 Rhaid sicrhau bod adolygiad blynyddol o anghenion hyfforddi a datblygu ar gael i bob aelod o'r awdurdod (ac eithrio arweinydd gweithrediaeth – gweler paragraff 23). Argymhellir bod llawer o anghenion hyfforddi a datblygu aelodau awdurdodau lleol yn cael eu nodi drwy ddefnyddio adolygiadau o'r fath.

2.13 Rhaid i'r adolygiad gynnwys cyfle i gael cyfweiliad wedi'i drefnu o flaen llaw rhwng yr aelod a pherson priodol gymwys (gweler paragraffau 2.17-2.22). Gallai'r cyfweiliad gynnwys adolygiad o'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu a dderbyniodd yr aelod dros y flwyddyn ddiwethaf (neu gyfnod priodol os mai newydd ei ethol y mae'r aelod).

2.14 Gallai awdurdodau lleol ystyried manylu ar ganlyniad y cyfweiliad mewn cynllun a gytunwyd sy'n pennu'r anghenion hyfforddi a datblygu, os oes rhai, ar gyfer y flwyddyn i ddod. Argymhellir bod y cynllun datblygu personol hwn yn cael ei roi i'r aelod a'i lofnodi gan yr aelod a'r sawl sy'n adolygu. Dogfen breifat yw hon na ddisgwylir i'r awdurdod na'r aelod ei chyhoeddi, er bod yr aelod yn rhydd i gyhoeddi manylion yn ei adroddiad blynyddol am unrhyw gyfleoedd hyfforddi a datblygu y manteisiodd arnynt os yw'n dymuno gwneud hynny.

2.15 Wrth gyflawni'r safon sy'n ofynnol ar gyfer y Freinlen, bydd angen i awdurdodau lleol fabwysiadu disgrifiadau rôl ar gyfer swyddi arweinydd, dirprwy arweinydd, aelod gweithrediaeth, aelod craffu, cadeirydd pwyllgor craffu a chadeiryddion pwyllgorau statudol a phwyllgorau ardal. Gellid defnyddio'r disgrifiadau fel canllaw i'r sgiliau y bydd gofyn i'r aelod perthnasol feddu arnynt.

2.16 Asesiad o anghenion hyfforddi a datblygu yw'r adolygiad. Gallai awdurdod lleol ystyried egluro i'r aelodau nad adolygiad o berfformiad nac asesiad o ba mor dda y mae aelod yn cyflawni ei ddyletswyddau yw'r adolygiad. Mater i'r etholwyr ei farnu yn y blwch pleidleisio yw hynny, nid gofyniad statudol.

Priodol Gymwys

2.17 Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu pwy ellid ei ystyried yn berson priodol gymwys i gynnal cyfweiliadau ag aelodau awdurdod lleol i drafod eu hanghenion hyfforddi a datblygu fel rhan o'u hadolygiad blynyddol. Gellid dyrannu'r cyfrifoldeb hwn i'r Pwyllgor GD o fewn yr awdurdod. Yn y rhan fwyaf o achosion, efallai nad mater o enwi unigolion fydd hyn, ond yn hytrach, proses o ddisgrifio swydd neu ddeiliad swydd (ond gweler paragraff 2.22 isod). Nid yw'n debyg o fod yn briodol nac yn ddymunol i un person fod â chyfrifoldeb dros gynnal pob un o'r cyfweiliadau.

2.18 Mae gan rai awdurdodau lleol ddulliau amrywiol eisoes o adolygu anghenion hyfforddi a datblygu eu haelodau. Mae'r dulliau'n cynnwys arweinyddion grwpiau'n cynnal cyfweiliadau â'u haelodau neu gyfweiliadau a gynhelir gan yr arweinydd ac aelodau gweithrediaeth. Mae'r ddau ddull yn ffyrdd cwbl dderbyniol o gydymffurfio â gofynion y Mesur.

2.19 Fodd bynnag, hwyrach y byddai'n well gan awdurdodau drosglwyddo'r ddyletswydd i'w swyddogion adnoddau dynol. Os dewisant wneud hynny, gall awdurdodau lleol ystyried gwneud Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (Pennaeth y GD) yn gyfrifol am oruchwylio swyddogion adnoddau dynol ar gyfer y rhan hon o'u gwaith. Pe bai Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig yn cael ei bennu'n berson priodol gymwys i gynnal cyfweiliad, yna ni fyddai disgwyl iddo weithio o dan oruchwyliaeth Pennaeth y GD.

2.20 Hwyrach y byddai'n well gan rai awdurdodau logi ymgynghorwyr allanol neu gydweithwyr i gynnal cyfweiliadau ac mae hyn hefyd yn dderbyniol.

2.21 Argymhellir na ddylai'r system gyflwyno unrhyw beth annisgwyl a dylai'r aelodau unigol wybod pwy fydd yn cynnal y cyfweiliad. Gallai awdurdodau lleol ystyried cynnwys opsiwn yn eu trefniadau i aelodau ofyn i Bennaeth y GD drefnu bod person gwahanol yn cynnal eu cyfweiliad os oes rheswm da dros wneud hynny.

2.22 I gloi, rhaid i awdurdodau sicrhau bod unrhyw un sy'n cynnal cyfweiliad wedi derbyn hyfforddiant addas ar gyfer gwneud hynny ac fe'u cynghorir i gysylltu ag WLGA i sicrhau bod hyn yn digwydd. Felly, hyd yn oed os yw awdurdod wedi dewis dyrannu'r ddyletswydd o gynnal adolygiadau i swydd yn hytrach nag i unigolyn, dylai deiliad y swydd fod wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol cyn dechrau cynnal cyfweiliadau.

Arweinydd Gweithrediaeth yr Awdurdod Lleol

2.23 Nid yw adran 7 y Mesur yn berthnasol i arweinydd gweithrediaeth (neu faer etholedig) awdurdod. Fodd bynnag, gallai fod adegau pan fydd yr arweinydd yn dymuno manteisio ar gyfle hyfforddi neu ddatblygu ac nid oes unrhyw awgrym na ddylent, o gael eu heithrio rhag darpariaethau'r Mesur, allu derbyn hyfforddiant, nac yn wir, gael adolygiad blynyddol neu eu cyf weld gan berson priodol gymwys.

MEINI PRAWF MYNYCHU SEMINARAU ALLANOL A THREFN AR GYFER
GWEITHREDU – Mabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (11
Rhagfyr 2012)

- Dylai'r aelod etholedig ddal swydd neu gyfrifoldeb yn y maes ar ran y Cyngor a dylia fedru dangos bod mynychu'r "cwrs ychwanegol" yn ei (g)alluogi i ymgymeryd â'u dyletswyddau yn well.

Gall y swydd neu gyfrifoldeb hynny fod fel:-
 - Cadeirydd neu Is-gadeirydd Craffu,
 - Aelod Cabinet
 - Pencampwr
 - Aelod o'r Pwyllgor Pensiynau
 - Cadeirydd neu Is-gadeirydd unrhyw bwyllgor arall.
 - Cynrychioli Gwynedd fel Aelod o gorff allanol
 - Aelod etholedig unigol sy'n rhan o Ymchwiliad Craffu, lle y byddai mynychu'r cwrs yn ychwanegu gwerth sylweddol i'r Ymchwiliad Craffu.(DS. Bydd unrhyw ymweliadau gan sawl aelod fel rhan o Ymchwiliad Craffu yn cael ei ystyried fel rhan o waith yr ymchwiliad a nid fel "cwrs")
- Ni ddylai'r "cwrs ychwanegol" fod ar gael o fewn y Rhaglen Hyfforddiant Aelodau Etholedig neu bod modd ei drefnu mewn ffordd gwahanol ar gyfer criw o aelodau yn fewnol er mwyn lleihau'r gost.
- Dylid ystyried a yw'r cwrs yn cynnig gwerth am arian, hynny yw, fod cost y cwrs yn faen prawf.
- Dylid ceisio osgoi teithio drwy drefnu, os yn bosib, i gymryd rhan neu wrando ar y "cwrs ychwanegol" drwy ddulliau amgen ee webinar / fideo gynhadledd
- Anelu at uchafswm o 2 "gwrs ychwanegol" fesul aelod ym mhob blwyddyn
- Rhaid ystyried perthnasedd y cwrs i raglen ddatblygu personol yr aelod etholedig.

Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn mabwysiadu'r drefn a ganlyn ar gyfer cyflwyno ceisiadau a'u hawdurdodi.

- Dylai aelod gyflwyno gwybodaeth yn ysgrifenedig (ar lythyr neu e-bost) gan esbonio sut y maent yn cyrraedd y meini prawf
- Dylid sicrhau fod gan yr aelod eilydd i'r cais, ee Cadeirydd neu is-Gadeirydd pwyllgor penodol yn cefnogi cais gan aelod unigol yn rhinwedd ei rol.
- Dylid cyflwyno'r cais o leiaf bythefnos rhag blaen i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, a fydd yn ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, cyn penderfynu ar y cais neu beidio
- Yr uchod i asesu y cais yn erbyn y meini prawf a gadael i'r aelod wybod y canlyniad. Dylid hefyd sicrhau fod trefniadau adrodd nôl a chrynhoi/ rhannu'r wybodaeth ychwanegol yn glir (Bydd hwn yn amrywio fesul cais/ maes).

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	4ydd o Fehefin 2013
PWNC	Hyfforddiant Aelodau – Gofynion Siarter Aelodau.
PWRPAS	Cyflwyno gwybodaeth am y Siarter Datblygu Aelodau er mwyn penderfynu ar y ffordd ymlaen.
Awduron	Cynghorydd Les Day, Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
	Geraint George Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi llunio Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru, y cyfeirir ati ar lafar fel 'Siarter Aelodau'.. Datblygwyd y Siarter ar ei newydd wedd yn 2012/13 gan ymgynghori â chylchoedd gwleidyddol a swyddogion cynorthwyo cynghorwyr pob awdurdod.
2. Mae CLILC yn cydnabod fod sawl her o flaen cynhorwyr y dyddiau hyn, a bod disgwyl iddynt gyflawni amryw ddyletswyddau, megis arwain yn y gymuned ac ysgwyddo cyfrifoldebau penodol yn y Cyngor. Datblygwyd y Freinlen er mwyn sicrhau y bydd rhaglen gymorth drefnus trwy Gymru gyfan ar gyfer cynorthwyo aelodau etholedig yn eu gwaith.
3. Mae tair lefel i'r broses, sef
 - Y Freinlen – gallai'r rhan fwyaf o awdurdodau ei hennill ar ol ond ychydig o fisoedd o waith
 - Y Freinlen Uwch – sy'n fwy ymestynnol am fod angen paratoi am ryw flwyddyn i'w hennill ar ol cyrraedd y lefel sylfaenol.
 - Gwobr Rhagoriaeth – angen gweld cymorth cywrain iawn a deilliannau amlwg i'r gwaith.
 (Gweler grynoded o'r hyn y bydd ennill y freinlen yn ei gyflawni i'r Cyngor yn **Atodiad A**)
4. I ymgeisio am y freinlen bydd angen i'r Awdurdod ddilyn y camau gweithredu a nodir isod:
 - a) Mynegi ei ymrwymiad corfforaethol i ymgeisio am y Freinlen trwy lofnodi datganiad o'i fwriad yn un o gyfarfodydd y Cyngor llawn.
 - b) Cynnal hunanasesiad bras yn ôl y meini prawf perthnasol a sefydlu cynllun gweithredu ar gyfer unrhyw waith datblygu er mwyn ateb gofynion y Freinlen.
 - c) Rhoi'r cynllun gweithredu ar waith a chyflwyno'r hunanasesiad i'r Gymdeithas (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)
 - d) Bydd tim o gymheiriaid yn adolygu'r cais ac yn rhoi adborth cynhyrchiol a chefnogol. Bydd rhai cymheiriaid yn ymweld â'r awdurdod yn anffurfiol fel rhan o'r cais.

5. Mae elfennau o'r freinlen yn cyd-fynd ac yn adeiladu ar ofynion y Mesur Llywodraeth Leol a adroddwyd eisoes. Mae ennill y Siarter, ynghyd a'r gwaith i baratoi tuag at Adolygiadau blynyddol o anghenion hyffoddi a dstblygu aelodau yn cefnogi egwyddorion y Cyngor ynghylch cefnogi datblygiad aelodau etholedig i'w galluogi i weithredu yn llwyddiannus yn eu rolau.
6. Mae'r uchod hefyd yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd gan yr is-grwp hyfforddiant fel rhan o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn y cyfnod hyd at Chwefror 2013.

Argymhellion:

7. Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn datgan diddordeb mewn ymgeisio am y Freinlen (Siarter) yn ystod 2013/14 gan adrodd yr argymhelliad yma i'r Cyngor llawn nesaf ar y 19eg o Fedi 2013.

Bydd y Freinlen yn:

- Cynnwys pob agwedd ar gymorth i gynghorwyr, megis trefniadau cyfansoddiadol, fframwaith strategol ac ymarferol ar gyfer datblygu cynghorwyr, gwasanaethau i gynghorwyr a chyfleusterau iddyn nhw.
- Cael ei hennill yn ôl canllawiau y cytunwyd amyn nhw. Bydd byd llywodraeth leol yn cadw llygad ar y trefniadau ac yn eu hasesu o'i wirfodd trwy gyfrwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a fydd yn rhoi gwybod i Lywodraeth y Cynulliad am y cynnydd.
- Rhoi datganiad, o'i hennill, o ymrwymiad yr awdurdod i gynorthwyo ei gynghorwyr, a bydd modd defnyddio hynny i annog pobl i sefyll mewn etholiadau.
- Cydnabod y bydd gan bob awdurdod ei ddull, ei flaenoriaethau a'i strwythur ei hun, ac mae hynny i'w groesawu.
- Hyrwyddo'r syniad o gynorthwyo a datblygu pob cynghorydd, beth bynnag fo'i blaid wleidyddol, a chydabod cyfraniad pob plaid wleidyddol at ddatblygiad gwleidyddol y cynghorwyr.
- Cydnabod bod pob cynghorydd yn dod â'i fedrau a'i rinweddau ei hun i'r awdurdod. Nid cynhyrchu criw o gynghorwyr unffurf yw diben y Freinlen, na'u gorfodi nhw i ymddwyn mewn modd penodol, ond rhoi'r wybodaeth, y medrau a'r cyfleoedd priodol iddyn nhw i'w galluogi i gyflawni'r swyddogaethau maen nhw wedi'u dewis.
- Annog yr awdurdodau i edrych ar y ffordd maen nhw'n gweithio, i ofalu bod pob cynghorydd yn cael cymryd rhan yn y gwaith hwnnw.

(CLILC – Breinlen ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru)